

## ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

---

### **PWNC: STRATEGAETH Y GYMRAEG 2017-2022 – DRAFFT**

#### Diben yr Adroddiad

Mynegi barn am y fersiwn ddrafft o Strategaeth y Gymraeg 2017- 2022 cyn iddi gael ei chyhoeddi at ddibenion ymgynghori.

#### Cyflwyniad/Cefndir

Bydd yr Aelodau'n cofio fod Comisiynydd y Gymraeg, ar 30 Medi 2015, wedi rhoi Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Safon 145 yn pennu fel a ganlyn:

“Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill)—

- (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a
- (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;

a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).”

Byddwn yn ymgynghori â chyrff/sefydliadau perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol am y Strategaeth ddrafft ac wedi hynny byddwn yn llunio fersiwn ddiwygiedig i'r Aelodau ei chymeradwyo.

#### **ARGYMHELLIAD:**

**Bod yr Aelodau yn mynegi barn am y fersiwn ddrafft o Strategaeth y Gymraeg 2017-2022, ac yn cytuno iddi fod yn destun ymgynghoriad.**

*Awdur: Tegryn Jones, Prif Weithredwr*  
*Ymgynghorai: Janet Evans, y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd*

Dogfennau Cefndir

Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a roddwyd i'r Awdurdod ar 30 Medi 2015.

*(I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Janet Evans, y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd, ar estyniad 4834 neu anfonwch e-bost at [janete@arfordirpenfro.org.uk](mailto:janete@arfordirpenfro.org.uk))*

***Awdurdod Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro***



**STRATEGAETH DDRAFFT Y  
GYMRAEG 2017 – 2022**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg**

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Gymraeg, fel un o'r ieithoedd lleiafrifol byw hynaf a mwyaf cadarn yn Ewrop, yn ganolog i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod yr iaith yn ffynnu, gan fod Cyfrifiad 2011 yn dangos bod niferoedd y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng.

Mae gan Sir Benfro dreftadaeth ieithyddol unigryw, gyda gwahaniaeth sylweddol o ran defnydd o'r Gymraeg ledled y sir. Mae gogledd y sir, gan gynnwys y rhan fwyaf o arwynebedd tir y Parc Cenedlaethol, yn cael ei ystyried yn ardal lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn draddodiadol, tra bo rhan ddeheuol y sir yn llawer mwy Seisnig gyda chyfran is o siaradwyr Cymraeg (gweler Adran 3: Dadansoddiad Ystadegol).

## 2. CYD-DESTUN POLISI

### 2.1 Dibenion y Parc Cenedlaethol

Caiff dibenion y Parc Cenedlaethol eu diffinio yn Neddf yr Amgylchedd 1995 fel a ganlyn:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol, a
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

Pan fo Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cyflawni'r dibenion hyn mae dyletswydd arnynt hefyd i:

Geisio meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol.

Mae'r cyfrifoldeb i warchod a gwella Treftadaeth Ddiwylliannol yr ardal yn amlygu cyfrifoldeb yr Awdurdod i warchod a gwella'r Gymraeg. Yn y cyswllt hwn, mae Cynllun Datblygu Lleol Arfordir Penfro 2010 – 2021 yn nodi'r Gymraeg fel un o Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol.

### 2.2 'Iaith Fyw: Iaith Byw': Strategaeth y Gymraeg 2012-17 gan Lywodraeth Cymru

Cyhoeddwyd Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yn 2012 ac mae'n nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer camau gweithredu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Diben y strategaeth yw gwneud cynnydd tuag at nod hirdymor Llywodraeth Cymru gan gyflawni'r amcan yn ei Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2016 – 2021 i "weld defnydd ehangach o'r Gymraeg a chynnydd yn y nifer sy'n ei siarad". I'r perwyl hwn, dros ei hoes o bum mlynedd bydd y Rhaglen Lywodraethu yn:

- gweithio tuag at sicrhau un miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac yn

- parhau i fuddsoddi i annog mwy o bobl i siarad a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi chwe phrif faes yn y cyswllt hwn:

Maes Strategol 1: Y teulu;  
 Maes Strategol 2: Plant a phobl ifanc;  
 Maes Strategol 3: Y gymuned;  
 Maes Strategol 4: Y gweithle;  
 Maes Strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg, a  
 Maes Strategol 6: Y seilwaith.

Mae Strategaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle gall yr Awdurdod gyfrannu at nodau Llywodraeth Cymru.

### **2.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r Awdurdod yn un o'r deugain a phedwar o gyrrff cyhoeddus y mae'n ofynnol iddynt fodloni darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi saith Nod Llesiant, ac mae deugain a chwech o Ddangosyddion Llesiant wedi cael eu hamlygu at ddiben mesur cynnydd tuag at gyrraedd y Nodau hynny. Un o'r Nodau yw "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu", a dau o'r dangosyddion ar ei gyfer yw:

- Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, a hefyd
- Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.

Mae'r Awdurdod yn aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Benfro, y mae'n ofynnol dan y Ddeddf iddo baratoi Asesiad Llesiant ar gyfer yr ardal ac, erbyn mis Mai 2018, cyhoeddi Cynllun Llesiant sy'n nodi sut y bydd y Nodau Llesiant yn cael eu cyrraedd.

### **2.4 Safonau'r Gymraeg**

Mae'r Awdurdod ymhlith y pum corff cyhoeddus ar hugain cyntaf yng Nghymru y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Rydym yn ymrwymedig i gydymffurfio â'r Safonau a pharhau i weithredu i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael mynediad at ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **2.5 Effaith Polisi Cynllunio**

Caiff Polisi Cynllunio yn y Parc Cenedlaethol ei nodi yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) Arfordir Penfro 2010 – 2021. Mae Polisi 12 yn y CDLI yn datgan fel a ganlyn:

“Ni fydd datblygiadau o natur, math neu raddfa sy’n debygol o beryglu buddiannau’r Gymraeg yn y gymuned yn cael eu caniatáu.”

Dylanwadir ar Bolisi Cynllunio yn y Parc Cenedlaethol gan Bolisi Cynllunio Cenedlaethol hefyd, yn enwedig Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a’r Iaith Gymraeg.

### 3. DADANSODDIAD YSTADEGOL

#### 3.1 Siaradwyr Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol

Gorwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gyfan gwbl yn Sir Benfro, gyda phoblogaeth o 22,644. Mae ffin y Parc Cenedlaethol yn gysylltiedig â dynodiad y tir sy’n rhan o’r Parc Cenedlaethol ac felly nid yw’n rhoi llawer o ystyriaeth i ffiniau wardiau nac aneddiadau. Gan fod data’r Cyfrifiad ynghylch siaradwyr Cymraeg yn cael ei gasglu yn ôl wardiau mae’n anodd cael arwydd cywir o nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn ffiniau’r Parc Cenedlaethol ei hun.

Fodd bynnag, at ddibenion y Strategaeth hon gallwn ddefnyddio data ar gyfer wardiau sy’n rhannol neu’n gyfan gwbl o fewn y Parc Cenedlaethol.

#### 3.2 Canfyddiadau Cyfrifiad 2011

Yn dilyn y Cyfrifiad diwethaf yn 2011, gellir nodi’r prif ganfyddiadau canlynol:

##### Sgiliau iaith Gymraeg (% o’r boblogaeth)

	Dim sgiliau iaith Gymraeg	Yn gallu siarad Cymraeg	Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig	Yn gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	Yn gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	Cyfuniad arall o sgiliau iaith Gymraeg
<b>PC Arfordir Penfro</b>	70.3	20.8	6.7	3.5	2.1	15.0	2.4
<b>Cymru</b>	73.3	19.0	5.3	2.7	1.5	14.6	2.5

O safbwynt rhifiadol gellir nodi’r canlynol:

- Yn gallu siarad Cymraeg – 4,709
- Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig – 1,517
- Yn gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg – 793
- Yn gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg – 476
- Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg – 3,397
- Cyfuniad arall o sgiliau iaith Gymraeg – 543

### 3.3 Y Ganran o Siaradwyr Cymraeg fesul ardal Cyngor Cymuned

Yng Nghyfrifiad 2001 roedd y ganran o Siaradwyr Cymraeg fesul ardal Cyngor Cymuned yn amrywio o 65.3% (Eglwyswrw) i 9.2% (Angle). Erbyn 2011 roedd y ganran yn amrywio o 62.3% (Eglwyswrw) i 5.85% (Dale).

Dros y cyfnod hwnnw o 10 mlynedd, gwelwyd cynnydd yn y ganran o siaradwyr Cymraeg mewn saith ardal Cyngor Cymuned. Roedd y cynnydd hwn yn amrywio o 1.5% (Angle) i 0.2% (Llanrhath). Roedd gan bob un o'r saith ardal Cyngor Cymuned lle bu cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011 lai nag 17% o siaradwyr Cymraeg yn 2001.

Gwelwyd gostyngiad yn y ganran o siaradwyr Cymraeg mewn cyfanswm o ddeugain a phedair o ardaloedd Cyngor Cymuned rhwng 2001 a 2011. Roedd y gostyngiad hwn yn amrywio o 0.4% (Caeriw) i 12.8% (Breudeth). Mewn deuddeg o'r chwe ardal Cyngor Cymuned ar bymtheg lle bu gostyngiad o 5% neu drosodd yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011 roedd dros 33% o'u poblogaeth yn siarad Cymraeg yn 2001.

Yn 2001, roedd dros hanner y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg mewn saith ardal Cyngor Cymuned; erbyn 2011 roedd y nifer hwn wedi gostwng i 5.

Mae'r rhaniad o ran y newid yn y % o siaradwyr Cymraeg fel a ganlyn:

%	2001	2011
Dros 60	4	1
50 i 60	3	4
40 i 49.9	6	6
30 i 39.9	5	4
20 i 29.9	1	3
10 i 19.9	31	27
Dan 10	1	6

## 4. STRATEGAETH YR AWDURDOD I HYRWYDDO'R GYMRAEG

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon mae'n rhaid ystyried y canlynol:

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn Awdurdod Lleol un pwrpas ac yn Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol. Ac eithrio'i gyfrifoldeb statudol am gynllunio nid oes rheolaeth ganddo ar lawer o'r gweithgareddau a all ddylanwadu ar gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, e.e. addysg, ac nid oes cyfrifoldeb ganddo am y rhain ychwaith.

Mae'n rhaid cydnabod hefyd nad yw ffin y Parc Cenedlaethol yn berthnasol iawn o ran cynllunio ieithyddol. Mae'r ffin yn torri trwy gymunedau a wardiau ac mae cryn dipyn o deithio'n digwydd i ac o'r gwaith ar draws y ffin hon. Hefyd, bydd pobl yn teithio i ac o'r Parc Cenedlaethol am resymau cymdeithasol a hamdden. Ymddengys felly nad oes llawer o fudd i'w gael o ganolbwyntio ar gynllunio ieithyddol penodol mewn perthynas ag ardal y Parc Cenedlaethol.

Yng ngoleuni hyn, bydd yr Awdurdod yn ymagnïo i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill i geisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. Yn arbennig, bydd ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i gyfrannu at gyflawni Strategaeth y Gymraeg a gytunwyd gan Gyngor Sir Penfro a fydd yn cwmpasu Sir Benfro yn ei chyfanrwydd.

#### 4.1 Y Weledigaeth ar gyfer y Strategaeth hon

Y Weledigaeth ar gyfer y Strategaeth hon yw gweld y Gymraeg yn ffynnu ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

I gyd-daro â'r Weledigaeth, mae targed mesuradwy heriol wedi cael ei bennu:

***Sicrhau cynnydd o 1% yn y ganran o boblogaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy'n gallu siarad Cymraeg erbyn 2022.***

Er mwyn gwireddu'r Weledigaeth hon, bydd angen i waith ganolbwyntio ar ddwyn y canlyniadau canlynol:

- Cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad yr iaith ac yn ei defnyddio'n feunyddiol yn y Parc Cenedlaethol;
- Mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- Ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith trigolion y Parc Cenedlaethol o werth yr iaith, fel rhan o'n hunaniaeth ddiwylliannol yn ogystal â bod yn sgil defnyddiol mewn bywyd modern; a hefyd
- Sefydlogi safle'r Gymraeg yn ein cymunedau.

### 5 Y MEYSYDD STRATEGOL

Mae ein Strategaeth yn seiliedig ar bum o'r chwe maes strategol a nodir gan Lywodraeth Cymru yn ei dogfen "*iaith fyw: iaith byw*" fel y meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt:

Maes Strategol 1: Y Teulu;  
Maes Strategol 2: Plant a Phobl Ifanc;  
Maes Strategol 3: Y Gymuned;  
Maes Strategol 4: Y Gweithle, a  
Maes Strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg.

#### 5.1 Maes Strategol 1: Y Teulu

Nod:

Annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd.

Y canlyniad a ddymunir:

Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel y brif iaith gyda'r plant gan o leiaf un oedolyn yn y teulu sydd mewn cyswllt rheolaidd â hwy.

Dangosydd:

Cynydd yn nifer y teuluoedd â phlant o oedran cyn-ysgol sy'n mynychu gweithgareddau a digwyddiadau cyfrwng Cymraeg.

Yn ôl yr adroddiad, “*Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith*” (Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2013), gall proffil ieithyddol y gymuned, a statws y Gymraeg o fewn y gymuned honno, fod yn ffactorau pwysig yng nghyd-destun trosglwyddo iaith. Ategir hyn gan yr adroddiad “*Impact Assessment: Twf and Onwards*” (Prifysgol Bangor, 2008) sy'n awgrymu bod cyswllt rhwng y ffactorau hyn a dyhead rhieni i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant.

Dengys tystiolaeth fod byw mewn cartref lle mae pawb yn gallu siarad Cymraeg yn arwain at gynydd o ddwywaith a hanner yn y siawns y defnyddir y Gymraeg bob dydd. Felly mae'r cartref yn adnodd cymdeithasol allweddol bwysig os safbwynt ieithyddol. Mae patrymau ieithyddol rhwng rhieni a'u plant yn cael eu sefydlu'n gynnar, ac mae'r patrymau sefydledig hyn yn parhau trwy gydol y blynyddoedd cynnar.

Er mai ychydig o ddylanwad uniongyrchol sydd gan yr Awdurdod ar y maes hwn, byddwn yn ymdrechu i gefnogi Cyngor Sir Penfro, ynghyd ag amryw brosiectau a mentrau i dargedu'r grŵp yma ac sydd â'r gallu i ddylanwadu ar rieni'n uniongyrchol trwy weithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol.

Hefyd, bydd yr Awdurdod yn parhau i fod â dylanwad anuniongyrchol ar y grŵp yma trwy barhau i hyrwyddo'r Gymraeg trwy ein gweithgareddau beunyddiol, dangos arfer gorau a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ac amlygu ei gwerth fel sgil.

## **5.2 Maes Strategol 2: Plant a Phobl Ifanc**

Nod:

Cynyddu'r ddarpariaeth o ran gweithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.

Y canlyniad a ddymunir:

Plant a phobl ifanc yn defnyddio mwy o'r Gymraeg.

Dangosydd:

Presenoldeb mewn digwyddiadau Cymraeg a drefnwyd ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae tystiolaeth a gasglwyd yn rhyngwladol yn awgrymu bod yr arddegau'n hollbwysig i ddatblygu agwedd ffafriol tuag at iaith leiafrifol ac i bennu i ba raddau y bydd unigolyn yn defnyddio'r iaith. Felly gellir gweld nad yw defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol yn unig yn ddigon; mae angen i'r plentyn neu'r person ifanc gael ei gefnogi gartref a chael ei annog i gyfranogi mewn

gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ehangach trwy gyfrwng y Gymraeg.

Felly mae angen darparu ystod eang o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'u Gymraeg y tu allan i'r ysgol, er mwyn iddynt allu cysylltu'r iaith nid dim ond ag addysg ond hefyd â gweithgareddau hamdden a diwylliannol ac, uwchlaw popeth, â phleser ac adloniant.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch Strategaeth y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru, datganodd nifer o ymatebwyr mai darparu cyfleoedd ymarferol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg oedd y ffordd orau o ddatblygu teimlad o werth tuag at ddefnyddio'r iaith.

Mae'r Awdurdod yn darparu amryw gyfleoedd gwahanol i blant a phobl ifanc gyfranogi mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol yn ogystal â gweithgareddau dysgu, y mae llawer ohonynt y tu allan i leoliad ffurfiol yr ystafell ddosbarth.

Un o'r pethau yr ydym yn gallu eu datblygu yw'r rhaglenni ymweliadau gan ysgolion ac ymweliadau maes, i sicrhau bod pob ysgol yn Sir Benfro yn gallu profi a mwynhau'r Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn gyfle gwych i gyflwyno cadwraeth, yr amgylchedd, hanes a diwylliant nid dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg, ond gan wneud y Gymraeg yn ganolog i ddatblygiad yr ardal a'i diwylliant.

### **5.3 Maes Strategol 3: Y Gymuned**

Nod:

Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned.

Y canlyniad a ddymunir:

Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau ledled Cymru.

Dangosydd:

Nifer y bobl sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg.

Mae gan Sir Benfro, a'r Parc Cenedlaethol, batrwm ieithyddol amrywiol iawn gyda'r prif gymunedau Cymraeg wedi'u lleoli yng ngogledd y sir, tra bo niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn is o lawer yn y de. Gyda hyn mewn cof, mae angen dull gwahanol o ran parchu treftadaeth ieithyddol ardaloedd gwahanol.

Yng ngogledd y Parc Cenedlaethol mae trwch y boblogaeth Gymraeg yn allweddol i ffyniant yr iaith ac adlewyrchir hyn gan weithgarwch cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gweithgareddau cymunedol a diwylliannol a gynhelir yn fodd i sicrhau gwerth yr iaith, yn ogystal â chreu'r teimlad hanfodol o berthyn i gymuned neu ardal.

Mae gan sefydliadau megis yr *Urdd*, *Clybiau Ffermwyr Ifanc*, *Merched y Wawr*, sioeau lleol a llu o gymdeithasau lleol eraill rôl allweddol o ran cefnogi'r Gymraeg mewn llawer o gymunedau. Mae'r sefydliadau hyn yn gyfrifol am ddatblygu arweinwyr lleol ac am gefnogi gwirfoddolwyr, yn ogystal â chynnig gweithgareddau cymdeithasol hanfodol trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, er gwaethaf y bwrlwm hwn mewn llawer o gymunedau yng ngogledd y Parc Cenedlaethol, mae'n amlwg bod mewnfudo ac allfudo yn cael effaith sylweddol ar y Gymraeg a'r rhwydweithiau cymdeithasol a gynhelir yn lleol.

Mae'r sefyllfa'n wahanol yn ne'r Parc Cenedlaethol, gyda llai na 15% yn siarad Cymraeg yn y rhan fwyaf o gymunedau. Nid yw'r Gymraeg yn iaith mor weithredol ymhlith y cymunedau hyn ac, yn draddodiadol, nid yw cymdeithasau a grwpiau wedi tueddu i gwrdd a chynnal eu busnes trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd yn nifer yr ysgolion Cymraeg yn ne'r sir gydag ysgol gynradd Gymraeg newydd wedi agor yn Ninbych-y-pysgod yn ddiweddar a disgwyl i ysgol Gymraeg newydd i ddisgyblion 3 – 16 oed a fydd yn gwasanaethu de a gorllewin Sir Benfro agor yn Hwlfordd yn 2018. Mae'r datblygiadau hyn yn gyfle i hyrwyddo'r Gymraeg ym mywyd cymunedol yr ardal. Hefyd, mae grwpiau penodol megis *Clwb Cinio*, *Merched y Wawr* a *Chlybiau Gwawr*, yn ogystal â nifer o grwpiau Cymdeithas y Dysgwyr bellach yn cwrdd yn ne'r sir ac felly'n gyfle i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned.

Mae'r Awdurdod yn ymgymryd â llawer o weithgareddau a phrosiectau a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg, gan roi cyfleoedd ychwanegol i bobl gymdeithasu a chyfranogi trwy gyfrwng yr iaith. Mae cyfleoedd niferus ac amrywiol ar gael i wirfoddoli gyda'r Awdurdod, gan roi cyfleoedd gwerthfawr i gyfranogi yn y digwyddiadau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, rydym yn ehangu ac yn datblygu ein rhaglen o deithiau tywys i ddenu mwy o bobl i gymryd rhan. Mae mynd ar daith dywys yn un o'r gweithgareddau hynny sy'n rhoi cyfle da i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg gymdeithasu yn yr iaith, yn ogystal â bod yn gyfle i rai nad ydynt yn siarad Cymraeg gael eu trochi yn yr iaith a'i gweld yn cael ei defnyddio'n naturiol fel rhan o fywyd pob dydd.

Mae polisïau cynllunio o fewn Cynllun Datblygu Lleol Arfordir Penfro yn bwysig iawn hefyd ar gyfer dyfodol hirdymor yr iaith. Pan gynigir datblygiadau tai newydd o fewn y Parc Cenedlaethol, mae'n ofynnol cynnal asesiadau o'r effaith i asesu effaith bosibl y datblygiad ar y Gymraeg yn y gymuned honno. Bydd polisïau ar dai fforddiadwy yn chwarae rhan hefyd gan alluogi pobl ifanc i aros yn lleol.

#### **5.4 Maes Strategol 4: Y Gweithle**

Nod:

Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Y canlyniad a ddymunir:

Mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

Dangosydd:

Mae'r ganran o'r staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn cynyddu.

Treulir cyfran sylweddol o'n hamser yn y gwaith, felly mae'r gweithle'n un o'r meysydd allweddol sy'n pennu defnydd iaith. Roedd nifer sylweddol o bobl a ymatebodd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Strategaeth y Gymraeg yn cytuno bod gan y gweithle rôl o ran cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn agweddau eraill ar eu bywyd, a bod datblygu statws y Gymraeg yn y gweithle'n bwysig o ran tanlinellu gwerth addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Awdurdod yn draddodiadol wedi bod, a bydd yn parhau i fod, yn ymrwymedig i ddarparu cyfleoedd i staff ddysgu a/neu ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae gan gyflogeion fynediad at offer TG i helpu eu defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys Cysgeir a Cysill ac fe'u hanogir i ddefnyddio'r rhyngwyneb Cymraeg ar eu cyfrifiaduron. Anogir staff Cymraeg i fynd ati'n answyddogol i gefnogi'r cydweithwyr hynny sy'n dysgu Cymraeg, neu nad ydynt yn hyderus i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle.

## 5.5 Maes Strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg

Nod:

Cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion.

Y canlyniadau a ddymunir:

Mwy o wasanaethau Cymraeg ar gael i'r cyhoedd a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaethau hynny.

Dangosyddion:

Cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae tystiolaeth helaeth yn awgrymu bod cyfran fawr o boblogaeth Cymru'n cefnogi gwasanaethau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 90% o siaradwyr Cymraeg y wlad yn credu ei bod yn hollbwysig darparu gwasanaethau Cymraeg er mwyn sicrhau bod yr iaith yn goroesi.

Ystyrir bod darparu gwasanaethau Cymraeg yn ffordd o greu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, a bod defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle felly'n elfen allweddol o hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a rhoi anogaeth i'w defnyddio.

## 6. Y MEYSYDD GWEITHREDU

Meysydd Gweithredu		Meysydd Strategol
Byddwn yn:		
1	Mynychu digwyddiadau lleol megis sioeau	Y Teulu

	<p>amaethyddol yn ogystal â'r <i>Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd</i> pan fyddant wedi'u lleoli yn y Parc Cenedlaethol neu'r siroedd sy'n ei amgylchynu.</p> <p>Mae gweithgareddau Cymraeg amrywiol ar gyfer plant yn cael eu trefnu'n ddyddiol ar y stondin, tra bo gwaith hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth yn cael ei wneud gan ein staff gyda'r oedolion a'r bobl ifanc sy'n ymweld.</p>	<p>Plant a Phobl Ifanc</p> <p>Y Gymuned</p> <p>Gwasanaethau Cymraeg</p>
2	<p>Parhau i ddarparu gwasanaethau amrywiol trwy ddigwyddiadau penodol a Diwrnodau Agored yng Nghastell Henllys, Castell Caerw ac Oriol y Parc.</p> <p>Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd gwych i fynychu digwyddiadau Cymraeg ac i ddysgu a gwerthfawrogi hanes lleol a diwylliant Sir Benfro a'r Parc Cenedlaethol.</p>	<p>Y Teulu</p> <p>Plant a Phobl Ifanc</p> <p>Y Gymuned</p> <p>Gwasanaethau Cymraeg</p>
3	<p>Darparu cyfleoedd i Awdur Preswyl Cymraeg weithio yng Nghanolffannau'r Parc Cenedlaethol.</p> <p>Bydd yr Awdur yn gweithio gydag ysgolion a grwpiau lleol i hyrwyddo sgiliau llythrennedd a datblygu gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r Parc Cenedlaethol.</p>	<p>Y Teulu</p> <p>Plant a Phobl Ifanc</p> <p>Y Gymuned</p> <p>Gwasanaethau Cymraeg</p>
4	<p>Datblygu ymhellach y rhaglen o deithiau tywys fel ffordd o gynnig gweithgareddau teuluol trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae'r teithiau cerdded hyn yn denu dysgwyr Cymraeg sy'n awyddus i ymarfer eu Cymraeg o fewn y grŵp. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn tywys pobl ag anableddau ar sail un i un ar rai teithiau cerdded. Maent felly'n gyfleoedd gwych i bobl sydd wedi symud i mewn i'r ardal wirfoddoli, cymdeithasu a gwneud ffrindiau, gan eu bod yn cael eu cyflwyno i'r Gymraeg ac yn gallu gweld yn uniongyrchol mor bwysig ydyw, a hynny, gobeithio, yn eu hannog i ddysgu.</p>	<p>Y Teulu</p> <p>Plant a Phobl Ifanc</p> <p>Y Gymuned</p> <p>Gwasanaethau Cymraeg</p>
5	<p>Datblygu'r Rhwydwaith Ysgolion Awyr Agored a'r rhaglen ysgolion fel bod ysgolion yn cael cyfle i gael mynediad at y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn ein galluogi i drefnu bod pob ysgol yn Sir Benfro'n cael ymweliad o leiaf *****.</p>	<p>Plant a Phobl Ifanc</p> <p>Gwasanaethau Cymraeg</p>

	<p>Mae'r rhaglen hon yn galluogi Parcmy'n Darganfod a Pharcmy'n i fynd i mewn i ysgolion o fewn y Parc i gynnal sesiynau amrywiol ar gadwraeth a'r amgylchedd, gwarchod y Parc Cenedlaethol, bioamrywiaeth a.y.b.</p> <p>Mae'r sesiynau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r holl ddogfennau a thafleini gwaith yn ddwyieithog.</p>	
6	<p>Sicrhau bod rhaglenni sydd wedi'u bwriadu i ehangu mynediad at y Parc Cenedlaethol megis Walkability, Gwobr John Muir, Eich Parc a Llwybrau yn darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Os yw'n angenrheidiol bydd yr Awdurdod yn recriwtio ac yn hyfforddi staff / gwirfoddolwyr ychwanegol i gefnogi'r gwaith yma.</p>	<p>Y Teulu</p> <p>Plant a Phobl Ifanc</p> <p>Y Gymuned</p> <p>Gwasanaethau Cymraeg</p>
7	<p>Gweithio gydag ysgolion lleol i amlygu gyrfaoedd posibl yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a pharhau i ddarparu lleoliadau profiad gwaith ar gyfer pobl ifanc o oedrannau amrywiol rhwng 15 ac 21 mlwydd oed.</p> <p>Bydd hyn yn rhoi profiad uniongyrchol o weithio trwy gyfrwng y Gymraeg i unigolion, a hwythau'n ei gweld yn cael ei defnyddio'n naturiol trwy waith yr Awdurdod. Trwy ddangos pa mor werthfawr a hanfodol yw'r Gymraeg fel sgil i weithio yn yr Awdurdod, mae hyn, gobeithio, yn annog plant a phobl ifanc i astudio pynciau uwch trwy gyfrwng y Gymraeg neu o leiaf ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ymhellach.</p>	<p>Plant a Phobl Ifanc</p> <p>Y Gweithle</p> <p>Gwasanaethau Cymraeg</p>
8	<p>Sicrhau bod Rhwydwaith Gwasanaethau Iechyd Naturiol Gorllewin Cymru yn darparu cyfleoedd i bobl gael mynediad at ddigwyddiadau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Y Teulu</p> <p>Plant a Phobl Ifanc</p> <p>Y Gymuned</p> <p>Gwasanaethau Cymraeg</p>
9	<p>Diogelu rhag unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg, trwy sicrhau bod polisiau yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) Arfordir Penfro a'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n cyd-fynd â'r</p>	<p>Y Teulu</p> <p>Plant a Phobl Ifanc</p>

	<p>CDLI yn gyfoes ac yn dal i fod yn berthnasol.</p> <p>Hynny yw, bydd yn ofynnol asesu effaith ieithyddol unrhyw ddatblygiad tai arfaethedig arwyddocaol o fewn y Parc Cenedlaethol. Bydd yr adolygiad sydd ar fin cael ei gynnal o'r CDLI yn asesu a yw'r polisi hwn a'r canllawiau sy'n cyd-fynd ag ef yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben. Hefyd, pan fydd yr holl bolisiau eraill yn cael eu hadolygu bydd asesiad yn cael ei gynnal i sicrhau nad oes unrhyw botensial ar gyfer effaith negyddol bosibl ar y Gymraeg.</p>	Y Gymuned
10	<p>Gweithio gyda busnesau lleol i ddatblygu manteision economaidd Dynodiad y Parc Cenedlaethol a hefyd dynodiadau lleol megis Awyr Dywyll. Mae'r gwaith hwn yn golygu annog busnesau lleol i ddefnyddio'r dynodiad i ychwanegu gwerth at eu busnesau. Mae'r holl ddeunyddiau ysgrifenedig yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, gyda seminarau a digwyddiadau Cymraeg yn cael eu cynnal ledled ardal y Parc.</p> <p>Trwy weithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Eryri ar gynhyrchu pecynnau gwybodaeth, cynnwys ar gyfer gwefannau ac ati, rydym wedi sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg, gan sicrhau bod gan fusnesau ym mhob un o'r tri Pharc Cenedlaethol fynediad at y rhain, a'u bod felly'n gallu manteisio ar y pwynt gwerthu unigryw hwn ar gyfer eu busnesau.</p>	Y Gymuned Gwasanaethau Cymraeg
11	Parhau i sicrhau bod prosiectau a gyllidir trwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.	Y Gymuned Gwasanaethau Cymraeg
12	<p>Datblygu Fframwaith Gwirfoddoli a fydd yn ffurfioli trefniadau ac yn rhoi strwythur mwy pendant i'r cyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd.</p> <p>Mae gwirfoddoli'n darparu cyfle gwych i bobl ddatblygu eu sgiliau, cymdeithasu a chwrdd â phobl newydd, cymryd rhan a dod yn fwy hyderus. Lle y bo'n briodol, bydd yn ofynnol gallu siarad Cymraeg ar gyfer peth gwaith gwirfoddoli, ac ar gyfer gwaith arall bydd yn ofynnol dysgu Cymraeg, er na fydd unrhyw</p>	Y Teulu Plant a Phobl Ifanc Y Gymuned Gwasanaethau Cymraeg

	<p>ofynion penodol o ran sgiliau iaith ar gyfer rhai tasgau. Fodd bynnag, hyd yn oed dan yr amgylchiadau hyn, bydd llawer o'r digwyddiadau'n cael eu harwain gan staff Cymraeg, a bydd dysgwyr neu rai di-Gymraeg yn cael eu trochi yn yr iaith trwy'r cyswllt ag eraill yn y grŵp.</p>	
13	<p>Parhau i sicrhau y rhoddir statws cyfartal i'r Gymraeg, trwy gyfarfodydd, cyfathrebu a digwyddiadau cyhoeddus ac ati, pan fo'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill. Bydd hyn yn wir ar gyfer partneriaethau ffurfiol lle mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth wedi'u sefydlu, ac ar gyfer gwaith mewn partneriaeth sy'n llai ffurfiol trwy grwpiau a digwyddiadau penodol.</p> <p>Bydd hyn yn sicrhau bod cyrff eraill, nad ydynt o bosibl yn rhoi blaenoriaeth nac ystyriaeth gyffredinol i'r Gymraeg, yn cael gweld pwysigrwydd statws cyfartal y Gymraeg, a sut y mae hyn yn gweithio'n ymarferol.</p>	Gwasanaethau Cymraeg
14	<p>Parhau i ddarparu cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg a/neu ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ymhellach.</p> <p>Byddwn yn cyflwyno cynllun mentora o fewn yr Awdurdod, lle gall siaradwyr Cymraeg rhugl helpu a chefnogi cydweithwyr sy'n dysgu Cymraeg a/neu'n brin o hyder i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle.</p>	Y Gweithle Gwasanaethau Cymraeg
15	<p>Parhau i gefnogi "<i>Diwrnod Shwmae</i>" a Gwobrau "<i>Shwmae</i>" Sir Benfro.</p>	Y Teulu Plant a Phobl Ifanc Y Gymuned
16	<p>Erbyn diwedd 2017, datblygu set o fesurau perfformiad CAMPUS i werthuso effaith y prosiectau / mentrau uchod.</p>	